Taflen Reoli

Enw	Fersiwn	Dyddiad
HM	Drafft 0.1	9.12.08
VAT	Drafft 0.2	5.01.09
TK	Drafft 0.3	19.01.09
CM	Drafft 0.4	20.01.09
VAT	Terfynol 1.0	26.01.09

CYFARFOD GRŴP LLYWIO AELODAU PROSIECT GWYRDD 9 RHAGFYR 2008, TŶ PENALLTA, TREDOMEN	
Yn Bresennol:	**Talfyriad**
Aelodau Etholedig: Y Cynghorydd Colin Mann, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili (Cadeirydd) Y Cynghorydd Margaret Jones, Cyngor Sir Caerdydd Y Cynghorydd Mark Stephens, Cyngor Sir Caerdydd Y Cynghorydd David Atwell, Cyngor Dinas Casnewydd Y Cynghorydd David Fouweather, Cyngor Dinas Casnewydd Y Cynghorydd Peter Fox, Cyngor Sir Fynwy Y Cynghorydd Eric Saxon, Cyngor Sir Fynwy Y Cynghorydd Geoff Cox, Cyngor Bro Morgannwg Y Cynghorydd Gordon Kemp, Cyngor Bro Morgannwg	 CM M.J MS DA DF PF ES GC GK
Swyddogion: Mark Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Steven Phillips, Cyngor Sir Caerdydd Marcia Sinfield, Cyngor Sir Caerdydd Elizabeth Weale, Cyngor Sir Caerdydd Stephen Davison, Cyngor Dinas Casnewydd Dave Harris, Cyngor Sir Fynwy Clifford Parish, Cyngor Bro Morgannwg Tara King, Rheolwr Prosiectau Ian Lloyd Davies, Swyddog Arweiniol Cyfathrebu	 MW SP MS EW SD DH CP TK ILD
Ymddiheuriadau: Y Cynghorydd Lyn Ackerman, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Elizabeth Lucas, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili Dan Perkins, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	

Rhif	Eitem	Cam Gweithredu
1.	**Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol**	
78/08	Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Medi 2008.	Nodwyd
2.	**Materion yn Codi**	
79/088	Nid oedd unrhyw faterion yn codi.	Nodwyd
3.	**Diweddariad Adroddiad Rheolwr Prosiectau – TK**	
80/08	Nododd TK fod Caerdydd a Chaerffili wedi ystyried ac ardystio cynnwys yr adroddiad 'cyffredin' (lle roedd yr achos busnes amlinellol yn atodiad) ac y byddai Casnewydd, y Fro a Sir Fynwy yn ystyried yr adroddiad ar 16, 17 Rhagfyr 2008 a 7 Ionawr 2009 yn y drefn honno. Yna rhoddodd TK gyflwyniad ar gwmpas y prosiect a'r strategaeth gaffael a chyfeiriodd yn benodol at gynnydd y safle a'r materion prosiect allweddol. Wrth gyfeirio at y gofynion i lunio'r trefniadau cydweithio terfynol, cadarnhaodd TK y dylai'r fanyleb allgynnyrch drafft fod ar gael i'w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf. Nodwyd y gallai'r diffyg ymrwymiad gan Lywodraeth y Cynulliad effeithio ar yr amserlen amlinellol ddangosol a ddatblygwyd i ganiatáu i'r prosiect ddatblygu ond y byddai angen parhau i ddatblygu'r ddogfennaeth gaffael angenrheidiol a chymhleth rhag ofn bydd cymorth ar ddod. Atebodd TK nifer o gwestiynau a godwyd yn ystod y cyflwyniad a chwrs y drafodaeth gan gyfeirio'n benodol at y risgiau sy'n gysylltiedig â'r atebion gan Lywodraeth y Cynulliad a threfniadau cyllido penodol awdurdodau unigol.	
4.	**Llythyr Arweinwyr i Brif Weinidog y Cynulliad - TK**	
81/08	Rhoddodd TK ddiweddariad ar sefyllfa bresennol Llywodraeth y Cynulliad o ran y cymorth ariannol a chyfeiriodd at ohebiaeth a anfonwyd at Jane Davidson gan y Grŵp Llywio ym mis Gorffennaf 2008 a'r ateb dilynol a gafwyd ym mis Awst 2008 yn nodi nad oedd yn bosib	Nodwyd

	gwneud ymrwymiad penodol ar yr adeg honno. Yn dilyn trafodaeth fanwl o ran sut y gellid datblygu'r mater ac yn tybio na fydd penderfyniad yn dod gan Lywodraeth y Cynulliad, tra'n ystyried y gofyniad am ymrwymiad cynnar er mwyn bwrw ymlaen â'r cynllun, cytunwyd ar y canlynol:- 1. yn amodol ar fân newidiadau i gynnwys gwybodaeth ariannol ddiwygiedig a'r canlyniadau manwl o ganlyniad i unrhyw oedi, y llythyr (fel sy'n atodiad i'r agenda) i'w anfon at y Prif Weinidog Rhodri Morgan gan y Grŵp Llywio yn gofyn am gymorth i gael ymrwymiad cryf o ran trefniadau ariannol; 2. awdurdodau unigol i ysgrifennu at eu AC ac AS perthnasol yn amlinellu'r sefyllfa bresennol a gofyn am eu cymorth; 3. Prif Weinidog Cymru i'w wahodd i'r cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 26 Ionawr 2009. 4. Ystyried gwahodd ACau ac ASau i'r cyfarfod nesaf	 TK Swyddog Arweiniol TK
5.	**Diweddariad Cyfathrebu a Phrotocol y Wasg - TK**	
82/08	Nododd ILD yr amcanion cyfathrebu a manylodd y protocol cyfryngau a'r cynigion ar gyfer delio ag ymholiadau drwy un cyfeiriad e-bost i sicrhau bod cysondeb a rheolaeth dros y wybodaeth a ddarperir. Nodwyd fod y cynnig hwn wedi'i drafod a'i gytuno gyda'r Rheolwyr Cyfathrebu unigol. Yna rhoddodd gyflwyniad ar y manylion i'w hymgorffori ar y wefan a fydd yn cynnwys cysylltiadau â gwefannau pob un o'r awdurdodau etholaethol (cynlluniau ailgylchu a strategaethau ac ati) a gwefannau cysylltiedig eraill. Fel rhan o achlysur lansio'r wefan, a fydd yn dechrau ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid allweddol, cynigir anfon e-bost mewnol i bob aelod o staff o bob un o'r pum awdurdod lleol. Cadarnhaodd ILD bod yr holl ddeunydd cysylltiadau cyhoeddus a ryddhawyd i'r cyfryngau yn cael eu hanfon ar ran Prosiect Gwyrdd. Dosbarthodd enghraifft o ddatganiadau i'r wasg cychwynnol a gyhoeddwyd ac fe gadarnhawyd y bydd datganiadau pellach yn cael eu creu wrth i'r prosiect ddatblygu.	ILD

	Awgrymwyd y dylid ystyried cynnwys eitem mewn cyhoeddiadau papur newydd cynghorau yn y flwyddyn newydd. Atebodd ILD nifer o gwestiynau a godwyd yn ystod y cyflwyniad a chwrs o ddilyn trafodaeth gan gyfeirio'n benodol at y protocol cyfryngau a chynnwys manwl y wefan.	
6.	**Sesiwn Cwestiwn ac Ateb**	
83/08	Ni chodwyd unrhyw gwestiynau nad oedd wedi cael eu trafod eisoes yn ystod y cyfarfod.	Nodwyd
7.	**Unrhyw Fater Arall**	Dim
8.	**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**	
84/08	Cynhelir cyfarfodydd eraill am 4.30pm fel a ganlyn: 26 Ionawr 2009 - Tŷ Penallta, Tredomen 23 Chwefror 2009 – Tŷ Penallta neu Neuadd y Sir, Caerdydd 16 Mawrth 2009 – Tŷ Penallta 20 Ebrill 2009 – Tŷ Penallta neu Neuadd y Sir, Caerdydd	Nodwyd